

Templed Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol Myfyrwyr

Mae ceisio cytundeb myfyrwyr a rhieni i'r Rheolau e-Ddiogelwch yn bwysig a bydd angen rheoli hyn. Bydd nifer o ysgolion yn ceisio'r caniatâd hwn pan fyddant yn gwirio'r manylion cyswllt cartref a brys unwaith bob blwyddyn. I sicrhau eglurder, gallai'r Rheolau e-Ddiogelwch sy'n briodol i oedran y disgybl gael eu cynnwys gyda llythyr i rieni. Mae posteri e-ddiogelwch enghreifftiol wedi cael eu cynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae'n bwysig dechrau o'r rhagdybiaeth bod defnydd o TGCh a'r rhyngwrwd yn rhywbeth bob dydd ac yn hanfodol ar gyfer addysg pob plentyn. Gallai'r cytundeb rhwng rhieni a'r ysgol gynnwys cymal megis:

*Mae technolegau newydd yn rhan annatod o fywydau plant a phobl ifanc yn y gymdeithas fodern, o fewn ysgolion ac yn eu bywydau y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhyngwrwd a thechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu digidol eraill yn offer pwerus sy'n agor cyfleoedd newydd i bawb. Gall y technolegau hyn ysgogi trafodaeth gan hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gynnwys; mae hefyd **yn rhan hollbwysig o'r dysgu, fel sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm Cenedlaethol**. Dylai fod hawl gan bobl ifanc i gyrchu'r rhyngwrwd yn ddiogel bob amser.*

I ddisgyblion sy'n hŷn nag 16 oed ac nid ydynt yn byw gartref, ac i bob disgybl 18 oed neu'n hŷn, gall yr ysgol benderfynu dibynnu ar gydsyniad y disgybl yn unig. Fel arall gall cydsyniad rhieni gael ei geisio. Mae hefyd yn ddoeth cael caniatâd rhieni i gyhoeddi gwaith disgyblion. Mae caniatâd i gyhoeddi yn ofynnol ar gyfer delweddau disgyblion, fideo neu sain ar wefan, podlediad neu raglen fideo.

Mae'r Polisi Defnydd Derbyniol hwn yn ceisio sicrhau:

- y bydd pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngwrwd a thechnolegau cyfathrebu eraill at ddefnydd addysgol, personol ac adloniadol.
- bod systemau TGCh yr ysgol a defnyddwyr wedi'u diogelu rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch systemau a defnyddwyr.
- bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau y bydd mynediad da gan fyfyrwyr i TGCh er mwyn gwella eu dysgu ac yn ei dro bydd yn disgwyl i fyfyrwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol.

Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol

Deallaf fod rhaid i mi ddefnyddio systemau TGCh yr ysgol mewn ffordd gyfrifol, gan sicrhau nad oes unrhyw risg i'm diogelwch neu ddiogelwch systemau TGCh a defnyddwyr eraill.

1. Er mwyn fy niogelwch personol fy hun:

- Deallaf y bydd yr ysgol yn monitro fy nefnydd o'r systemau TGCh, e-bost a chyfathrebu digidol arall.
- Byddaf yn trin fy enw defnyddiwr a chyfrinair fel fy mrws dannedd - ni fyddaf yn ei rannu, ac ni fyddaf yn ceisio defnyddio enw defnyddiwr a chyfrinair unrhyw un arall.
- Byddaf yn ymwybodol o "berygl dieithriad" pan fyddaf yn cyfathrebu ar-lein.
- Ni fyddaf yn datgelu neu'n rhannu gwybodaeth bersonol amdanaf fy hun neu eraill pan fyddaf ar-lein.
- Os ydw i'n trefnu i gwrdd â phobl all-lein rwyf wedi cyfathrebu â nhw ar-lein, byddaf yn gwneud hynny mewn lle cyhoeddus ac yn mynd ag oedolyn gyda mi.
- Byddaf yn adrodd ar unwaith am unrhyw ddeunyddiau neu negeseuon annymunol neu amhriodol neu unrhyw beth sy'n gwneud i mi deimlo'n anghysurus pan fyddaf yn ei weld ar-lein.

2. Deallaf fod hawl gyfartal gan bawb i ddefnyddio'r dechnoleg fel adnodd a:

- Deallaf fod systemau TGCh yr ysgol wedi'u bwriadu i'w defnyddio at ddefnydd addysgol yn bennaf a byddaf yn defnyddio'r systemau at ddefnydd personol neu adloniadol dim ond os oes caniatâd gennyf i wneud hynny.
- Ni fyddaf yn ceisio (oni bai bod caniatâd gennyf) gwneud lawrlwythiadau neu lanlwythiadau mawr a allai gymryd capasiti'r rhyngwrwyd ac atal defnyddwyr eraill rhag gallu cyflawni eu gwaith.
- Ni fyddaf yn defnyddio systemau TGCh yr ysgol ar gyfer hapchwarae ar-lein, gamblo ar-lein, siopa ar y rhyngwrwyd, rhannu ffeiliau neu ddarllediadau fideo (e.e. YouTube) oni bai bod caniatâd aelod o staff gennyf i wneud hynny (dylai ysgolion newid yr adran hon er mwyn ystyried eu polisi ar bob un o'r materion hyn)

3. Byddaf yn ymddwyn yn yr un modd ag rwyf yn disgwyl i eraill ymddwyn tuag ataf i:

- Byddaf yn parchu gwaith ac eiddo pobl eraill ac ni fyddaf yn cyrchu, copïo, dileu neu newid fel arall unrhyw ffeiliau defnyddiwr, heb wybodaeth a chaniatâd y perchennog.
- Byddaf yn gwrtais ac yn gyfrifol wrth gyfathrebu ag eraill, ni fyddaf yn defnyddio iaith gryf, ymosodol neu amhriodol a gwerthfawrogaf y gall fod barn wahanol gan bobl eraill.
- Ni fyddaf yn tynnu neu'n dosbarthu lluniau o unrhyw un heb ei ganiatâd.

4. Cydnabyddaf fod cyfrifoldeb gan yr ysgol i gynnal diogelwch a chywirdeb y dechnoleg y mae'n ei chynnig i mi a sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn rhwydd:

- Byddaf yn defnyddio fy nyfeisiau personol llaw / allanol (ffonau symudol / dyfeisiau USB ac ati) yn yr ysgol dim ond os oes caniatâd gennyf (*dylai ysgolion newid yr adran hon yn unol â'u polisiau ffôn symudol / offer llaw*). Deallaf os ydw i'n defnyddio fy nyfeisiau fy hunan yn yr ysgol, byddaf yn dilyn y rheolau a osodwyd yn y cytundeb hwn yn yr un ffordd â phe byddwn yn defnyddio offer yr ysgol.
- Deallaf y risgiau ac ni fyddaf yn ceisio lanlwytho, lawrlwytho neu gyrchu unrhyw ddeunyddiau sy'n anghyfreithlon neu'n amhriodol neu a allai achos niwed neu ofid i eraill, ac ni fyddaf yn ceisio defnyddio unrhyw raglenni neu feddalwedd a allai fy ngalluogi i osgoi'r systemau hidlo / diogelwch sydd yn eu lle i atal mynediad i ddeunyddiau o'r fath.
- Byddaf yn adrodd ar unwaith am unrhyw namau neu ddifrod i offer neu feddalwedd, sut bynnag y digwyddodd hyn.
- Ni fyddaf yn agor unrhyw atodiadau i e-byst, oni bai fy mod yn adnabod ac yn sicr ynghylch y sawl / sefydliad a anfonodd yr e-bost, oherwydd y risg bod yr atodiad yn cynnwys feirysau neu raglenni niweidiol eraill.
- Ni fyddaf yn gosod neu'n ceisio gosod rhaglenni o unrhyw fath ar beiriant, neu storio rhaglenni ar gyfrifiadur, ac ni fyddaf yn ceisio newid gosodiadau cyfrifiaduron.
- Byddaf yn defnyddio'r safleoedd sgwrsio a rhwydweithio cymdeithasol gyda chaniatâd ac ar yr adegau a ganiateir yn unig (*dylai ysgolion newid yr adran hon yn unol â'u polisi ar fynediad i rwydweithiau cymdeithasol a safleoedd tebyg*).

5. Wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd ar gyfer ymchwil neu adloniant, cydnabyddaf:

- Dylwn sicrhau bod caniatâd gennyf i ddefnyddio gwaith gwreiddiol pobl eraill yn fy ngwaith fy hun.
- Os yw'r gwaith wedi'i ddiogelu gan hawlfraint, ni fyddaf yn ceisio lawrlwytho copïau (gan gynnwys cerddoriaeth a fideos).
- Pan fyddaf yn defnyddio'r rhyngwrwd i gael hyd i wybodaeth, dylwn fod yn ofalus a gwirio bod yr wybodaeth rwyf yn ei chyrchu yn gywir, oherwydd deallaf fod posibilrwydd nad yw gwaith eraill yn onest a gall fod ymgais bwriadol i'm camarwain.

6. Deallaf fy mod i'n gyfrifol am yr hyn a wnaif y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol:

- Deallaf fod hawl gan yr ysgol gymryd camau yn fy erbyn os ydw i'n ymwneud ag achosion o ymddygiad amhriodol sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb hwn, pan fyddaf allan o'r ysgol ac os ydynt yn cynnwys fy aelodaeth o'r gymuned ysgol (*byddai enghreifftiau yn cynnwys seibr-fwlio, defnyddio delweddau neu wybodaeth bersonol*).
- Deallaf os ydw i'n methu â chydymffurfio â'r Cytundeb Polisi Defnydd Derbyniol hwn, byddaf yn destun camau disgyblu. Gallai hyn gynnwys (*dylai ysgolion newid yr adran hon i ddarparu sancsiynau perthnasol yn unol â'u polisiau ymddygiad*) colli mynediad i'r rhwydwaith ysgol / rhyngwyd, cadw ar ôl ysgol, gwahardd, cyswllt â rhieni ac yn achos gweithgareddau anghyfreithlon, gweithredu gan yr heddlu.

Rheolau e-Ddiogelwch ein Hysgol

Mae pob myfyriwr yn defnyddio cyfleusterau cyfrifiadurol gan gynnwys mynediad i'r rhyngwrwyd fel rhan hollbwysig o'r dysgu, fel sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm Cenedlaethol. Gofynnir i ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr lofnodi i ddangos bod y Rheolau e-Ddiogelwch wedi cael eu deall a'u cytuno.

Cwblhewch yr adrannau isod i ddangos eich bod wedi darllen, deall a chytuno â'r rheolau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Defnydd Derbyniol. Os nad ydych yn llofnodi ac yn dychwelyd y cytundeb hwn, ni fydd mynediad yn cael ei roi i systemau TGCh ysgolion.

Enw'r Myfyriwr:

Dosbarth:

Cytundeb y Myfyriwr

Rwyf wedi darllen ac rwyf yn deall yr uchod, a chytunaf i ddilyn y canllawiau hyn pan fyddaf yn:

- Defnyddio systemau ac offer TGCh yr ysgol (yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol)
- Defnyddio fy offer fy hun yn yr ysgol (pan ganiateir hynny) e.e. ffonau symudol, cynorthwywyr digidol personol, camerâu ac ati
- Defnyddio fy offer fy hun y tu allan i'r ysgol mewn ffordd sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r ysgol hon, e.e. cyfathrebu ag aelod arall o'r ysgol, cyrchu e-bost yr ysgol, VLE, gwefan ac ati
- Deall y gall mynediad i'r rhwydwaith a'r rhyngwrwyd gael ei fonitro.

Llofnodwyd:

Dyddiad:

Cwblhewch, llofnodwch a dychwelwch at ysgrifennydd yr ysgol

Meddwl cyn Clicio

Mae'r rheolau hyn yn ein helpu i fod yn ddiogel ar y rhyngrwyd Y Cyfnod Sylfaen

Rydym yn defnyddio'r rhyngrwyd dim ond pan fydd oedolyn gyda ni.

Gallwn glicio ar y botymau neu'r dolenni pan fyddwn yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud.



Gallwn chwilio'r rhyngrwyd gydag oedolyn.

Byddwn bob amser yn gofyn os ydym yn mynd ar goll ar y rhyngrwyd.



Gallwn anfon ac agos e-byst gyda'n gilydd.

Gallwn ysgrifennu e-byst cwrtais a chyfeillgar at bobl rydym yn eu hadnabod.



Meddwl cyn Clicio

Rheolau e-Ddiogelwch ar gyfer Cyfnod Allweddol 2

- Rydym yn gofyn am ganiatâd cyn defnyddio'r rhyngrwyd.
- Rydym yn dweud wrth oedolyn os ydym yn gweld unrhyw beth nad ydym yn gysurus ag ef.
- Rydym yn cau unrhyw wefan nad ydym yn sicr ohoni ar unwaith.
- Rydym yn e-bostio pobl y mae oedolyn wedi'i gymeradwyo yn unig.
- Anfonwn e-byst sy'n gwrtais ac yn gyfeillgar yn unig.
- Dydyn ni byth yn rhoi gwybodaeth bersonol neu gyfrineiriau.
- Dydyn ni byth yn trefnu i gwrdd ag unrhyw un nad ydym yn ei adnabod.
- Nid ydym yn agor e-byst sy'n cael eu hanfon gan unrhyw un nad ydym yn ei adnabod.
- Nid ydym yn defnyddio ystafelloedd sgwrsio'r rhyngrwyd.



Rheolau e-Ddiogelwch

Ysgolion Uwchradd

Mae'r Rheolau e-Ddiogelwch hyn yn helpu i ddiogelu myfyrwyr a'r ysgol drwy ddisgrifio defnydd derbyniol ac annerbyniol o gyfrifiaduron.

- Mae'r ysgol yn gweithio gyda'r sir i reoleiddio'r rhwydwaith cyfrifiaduron a gall osod rheolau ar gyfer ei ddefnyddio.
- Mae'n drosedd i ddefnyddio cyfrifiadur neu rwydwaith at ddiben sydd heb ei ganiatáu gan yr ysgol.
- Gall defnydd anghyfrifol olygu colli mynediad i'r rhwydwaith neu'r rhyngwrwyd.
- Rhaid cyrchu'r rhwydwaith drwy gyfrif a chyfrinair awdurdodedig y defnyddiwr, ac ni ddylid ei roi i unrhyw un arall.
- Rhaid i'r holl ddefnydd o'r rhwydwaith a'r rhyngwrwyd fod yn briodol i addysg.
- Rhaid i hawliau eiddo deallusol a hawlfraint gael eu parchu.
- Bydd negeseuon yn cael eu hysgrifennu'n ofalus ac yn gwrtais, yn enwedig oherwydd gallai e-byst gael eu hanfon ymlaen at ddarllenwyr ar gam.
- Ni chaniateir negeseuon dienw a llythyrau cadwyn.
- Rhaid i ddefnyddwyr fod yn ofalus i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol drwy'r e-bost, cyhoeddiadau personol, blogiau neu negeseua.
- Ni all systemau TGCh yr ysgol gael eu defnyddio at ddibenion preifat, oni bai bod y pennaeth wedi cael caniatâd penodol.
- Nid yw defnydd er mwyn gwneud elw personol, gamblo, gweithgarwch gwleidyddol, hysbysebu neu ddibenion anghyfreithlon wedi'i ganiatáu.

Gall yr ysgol arfer ei hawl i fonitro'r defnydd o systemau cyfrifiadurol yr ysgol, gan gynnwys mynediad i wefannau, rhyng-gipio e-byst a dileu deunyddiau amhriodol os yw'n credu bod system gyfrifiadurol yr ysgol yn cael ei defnyddio heb awdurdod, neu fod y system yn cael ei defnyddio at ddibenion troseddol neu ar gyfer storio testun, delweddau neu sain diawdurdod.